**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref CG/PO/69/2024
Ein cyf/Our ref CG/PO/69/2024

5 Mawrth 2024

Annwyl Aelod o'r Senedd

**Ymateb i argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Biliau Diwygio yn ei adroddiad Cyfnod 1 ar Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)**

Cyn i drafodion Cyfnod 2 ar Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) gael eu cynnal yn ddiweddarach yr wythnos hon, hoffwn fanteisio ar y cyfle i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi am ddull Llywodraeth Cymru o ymdrin â nifer bach o argymhellion a nodwyd gan y Pwyllgor Biliau Diwygio yn ei adroddiad Cyfnod 1.

> ***Argymhelliad 38**. Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i adran 6 o'r Bil i ddarparu cyfnod gras priodol fel y gall Aelod apelio os caiff ei enw ei ddileu o'r gofrestr etholwyr mewn cyfeiriad yng Nghymru, i'w atal rhag colli ei sedd o ganlyniad i ddileu ei enw ar ddamwain o'r gofrestr.*

Wrth nodi'r argymhelliad hwn, ymrwymais i ystyried ymhellach a oes unrhyw fesurau diogelu neu sicrwydd pellach y gellir eu darparu. Ar ôl gwneud hynny, rwyf wedi fy modloni bod mesurau diogelu a gweithdrefnau cadarn y mae'n rhaid i Swyddog Cofrestru Etholiadol eu dilyn cyn y gellir tynnu enw unrhyw unigolyn oddi ar gofrestr. Mae'r sefyllfaoedd lle y gellir tynnu enw unigolyn oddi ar gofrestr heb gynnal adolygiad yn gyfyngedig. Maent yn cynnwys, er enghraifft, sefyllfa pan fo Swyddog Cofrestru Etholiadol wedi cael cadarnhad boddhaol bod person sydd wedi'i gofrestru ar gofrestr etholwyr llywodraeth leol wedi marw. Mewn sefyllfaoedd eraill, rhaid i Swyddog Cofrestru Etholiadol gynnal adolygiad, ac er bod gwahanol fathau o adolygiadau, mae pob un yn ei gwneud yn ofynnol i'r Swyddog gysylltu â'r etholwr dan sylw fel rhan o'r adolygiad.

Mae'r gyfraith etholiadol eisoes yn darparu ar gyfer proses apelio, drwy'r Swyddog Cofrestru Etholiadol i'r Llys Sirol. Er imi ystyried a ellid oedi'r anghymhwyso hyd nes bod llwybrau apêl o'r fath wedi'u defnyddio, gallai'r amser y byddai proses o'r fath yn ei gymryd arwain at sefyllfa lle byddai apêl heb ei datrys cyn diwedd tymor Senedd. Pe bai'r apêl yn aflwyddiannus bryd hynny, byddai'r bwriad polisi y tu ôl i'r gofyniad anghymhwyso hwn wedi cael ei lesteirio.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Felly, nid wyf yn bwriadu gwneud gwelliant i'r Bil hwn mewn ymateb i argymhelliad 38, gan fy mod yn credu bod y mesurau diogelu sydd eisoes ar waith yn ddigon cadarn i roi effaith i'r bwriad polisi sydd y tu ôl i'r argymhelliad hwn, ac eithrio mewn amgylchiadau prin iawn. Yn fy marn i, mae'r materion a fyddai'n cael eu creu wrth geisio deddfu i gael gwared ar bob risg o ddileu enw ar ddamwain yn gorbwyso'r risg weddilliol fach iawn sy'n bodoli drwy beidio â deddfu yn y maes hwn. Yn ogystal, rwyf wedi gofyn i'm swyddogion barhau i weithio gyda Swyddogion Cofrestru Etholiadol i nodi unrhyw fesurau diogelwch ymarferol pellach y gellir eu hystyried.

> ***Argymhelliad 39***. *Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ddarparu mecanwaith i ymgeisydd wrth gefn, a fyddai fel arall yn gymwys i gymryd sedd wag sy'n codi yn ystod tymor Senedd, gofrestru ar y gofrestr etholwyr llywodraeth leol gyda chyfeiriad yn un o etholaethau'r Senedd. Dylai'r mecanwaith gynnwys darpariaeth ar gyfer cyfnod rhesymol o amser y byddai'n ofynnol i'r darpar Aelod fodloni'r cymhwystra yn unol ag ef.*

Wrth dderbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor, ymrwymais i archwilio opsiynau i fynd i'r afael â'r mater sy'n sail i'r argymhelliad hwn. Ar ôl gwneud hynny, rwyf wedi fy modloni mai'r dull mwyaf priodol yw cynnwys darpariaeth wrth wneud gorchymyn newydd o dan adran 13 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i ddisodli Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 ("y Gorchymyn Cynnal Etholiadau") cyn etholiad Senedd 2026. Ar hyn o bryd mae'r Gorchymyn yn nodi, pan ddaw sedd ranbarthol yn wag, fod gan Swyddogion Canlyniadau gyfnod, yn ôl yr hyn sy'n rhesymol yn eu tyb hwy, i ystyried a yw'r ymdrechion i gysylltu â darpar aelod wedi bod yn llwyddiannus, ynteu a dderbyniwyd hysbysiadau penodol yn nodi na all y darpar aelod dderbyn y sedd. Unwaith y bydd y cyfnod hwnnw wedi mynd heibio, bydd y Swyddog Canlyniadau yn symud at y darpar aelod nesaf ar y rhestr.

Mae'r Llywodraeth yn bwriadu gwneud darpariaeth debyg ar gyfer seddi gwag yn y drefn etholaethol newydd yn y Gorchymyn Cynnal Etholiadau newydd, a fydd yn destun ymgynghoriad. Fodd bynnag, yn hytrach na gadael y mater i ddisgresiwn pob Swyddog Canlyniadau, bydd y Gorchymyn newydd yn ceisio safoni'r cyfnod o amser y mae'n rhaid i Swyddog Canlyniadau ei roi i ddarpar aelod cyn symud at y darpar aelod nesaf ar y rhestr berthnasol. Byddai cyfnod o'r fath yn caniatáu i unigolyn nad oedd wedi cael ei ethol mewn etholiad cyffredinol, ac yr oedd ei enw wedi cael ei dynnu wedyn oddi ar gofrestr etholwyr llywodraeth leol yn un o etholaethau'r Senedd, gael y cyfle i fodloni'r meini prawf cofrestru, ac i gofrestru, er mwyn gallu cymryd y sedd wag.

Felly, nid wyf yn bwriadu gwneud unrhyw welliant i Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) gan y bydd y Gorchymyn Cynnal Etholiadau newydd yn rhoi effaith i'r bwriad polisi sydd y tu ôl i'r argymhelliad hwn.

Yn gywir,



**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution